RHEOLIADAU CYFRIFON AC ARCHWILIO (CYMRU) 2014

CYFRIFON CYNGOR GWYNEDD
CYFRIFON BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2022

Mae rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Gwynedd lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y corff hwnnw ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2022.

Dangosir yr amserlen statudol 2021/22 yn y tabl isod ynghyd â'r amserlen estynedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru oherwydd parhad y pandemig.

	Amserlen Statudol	**Amserlen Estynedig**
Datganiad o Gyfrifon Drafft	31 Mai 2022	31 Awst 2022
Datganiad o Gyfrifon yn dilyn Archwiliad	31 Gorffennaf 2022	30 Tachwedd 2022

Nid yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 oherwydd effaith parhaus Covid19 ar adnoddau staff a'r gwaith ychwanegol i gwblhau'r cyfrifon eleni, byddwn yn gweithio o fewn y terfynau amser estynedig.

Dyddiedig: 27 Mai 2022